



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Ymgyfraniad

1: Galluogi diwylliant o ymgyfraniad arwyddocaol yn eich sefydliad

2: Gweithio gyda phobl a rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion, eu dyheadau a'u syniadau

3: Sicrhau eich bod yn adlewyrchu anghenion, dyheadau a syniadau pobl wrth wneud penderfyniadau a dangos sut yr ydych wedi gwneud hyn





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Ymgyfraniad

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir ymgyfraniad fel rhan o'r 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy' fel a ganlyn:

Mae'n rhaid i gorff cyhoeddus dalu sylw i...

(b) pwysigrwydd ennyn ymgyfraniad personau eraill â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth i. Cymru (lle mae'r corff yn ymarfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan), neu:

ii. y rhan o Gymru lle mae'r corff yn ymarfer ei swyddogaethau.



Diffinio'r ffordd o weithio

Fel ffordd o weithio, mae ymgyfrannu'n ymwneud â chynnal sgysiau cyfoethog ac ystyrllon gyda phobl yn eich cymuned, gan ddarganfod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac adlewyrchu hynny yn eich penderfyniadau.

Darganfu adolygiad diweddar mai dim ond 27% o oedolion oedd yn cytuno y gallent hwy yn bersonol ddylanwadu ar benderfyniadau. Mae yna hefyd deimlad o 'alaru ar ymgynghori' oherwydd nifer mawr o enghreifftiau o ymgyfrannu heb lawer o drefn ar faterion sy'n debyg i'w gilydd, a phobl yn methu deall bob amser sut mae eu barn wedi cael sylw.

Mae ymgyfraniad yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn agored i ddylanwad dinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' phobl yn hytrach na 'gwneud pethau iddynt'. Mewn cymhariaeth ag ymgynghori, mae ymgyfrannu'n golygu mynd ati i weithio gyda phobl yn y cyfnod cynnar, megis helpu i nodi materion a datrysiadau posibl, a chael cefnogaeth i barhau i ymgyfrannu drwy holl gyfnod dylunio, gweithredu a phrosesu gwerthuso.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Diffinio'r ffordd o weithio

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y ffordd hon o weithio

Galluogi diwylliant o ymgyfraniad arwyddocaol yn eich sefydliad

[\(Gweler taith ymgyfraniad pwnc 1: Diwylliant ymgyfrannu sefydliadol\)](#)

Gweithio gyda phobl a rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion, eu dyheadau a'u syniadau

[\(Gweler taith ymgyfraniad pwnc 2: Ymgyfrannu wyneb yn wyneb\)](#)

Sicrhau eich bod yn adlewyrchu anghenion, dyheadau a syniadau pobl wrth wneud penderfyniadau a dangos sut yr ydych wedi gwneud hyn

[\(Gweler taith ymgyfraniad pwnc 3: Effaith a chyfleu ymgyfraniad\)](#)

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd:...**

- Pan fydd sefydliadau'n galluogi gofod, amser ac adnoddau ar gyfer ymgyfraniad ystyrlon.
- Pan fydd dinasyddion yn deall perthnasedd ymgyfraniad i'w bywydau, ac yn ei weld fel dull o greu newid.
- Pan fydd sefydliadau'n esbonio'r effaith a gafodd yr ymgyfraniad, er enghraifft, ymagwedd "dywedoch chi, gwnaethom ni", gan adeiladu tryloywder ac ymddiriedaeth.
- Pan fydd prosiectau sy'n bodoli eisoes yn profi bod ymgyfraniad da yn medru ychwanegu gwerth ac arbed costau hirdymor.
- Pan fydd ymgyfraniad yn cael ei weld fel rhywbeth i'w fwynhau ac yn rhywbeth buddiol i staff, sefydliadau a dinasyddion fel ei gilydd.
- Pan fydd ymgyfraniad yn cael ei gyd-drefnu yn hytrach na'i osod mewn seilos.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod yn **llai tebygol o ddigwydd:**

- Pan na fydd sefydliadau'n buddsoddi mewn sgiliau ac yn methu caniatáu amser i ennyn ymgyfraniad pobl na throsglwyddo'r canlyniadau mewn dull ystyrlon i bolisi a phenderfyniadau.
- Pan fydd ymgyfraniad parhaus grŵp amrywiol o ddinasyddion a rhanddeiliaid yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cymryd amser ac sy'n ddryslyd oherwydd gwahanol safbwyntiau.
- Pan na fydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n cael eu dal i gyfrif mewn perthynas â mewnbwn cyhoeddus.
- Pan fydd sefydliadau'n mabwysiadu ymagweddau 'ymgyngori' traddodiadol tuag at ymgyfrannu.
- Pan fydd cyfleu'r hyn sydd wedi newid fel canlyniad i ymgyfraniad yn anghyson, a dinasyddion 'wedi alaru ar ymgyngori'.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Ymgyfraniad

1: Diwylliant Sefydliadol

Galluogi a sefydlu diwylliant fel rhan annatod ystyrllon o ymgyfraniad dinasyddion a rhanddeiliaid.

Diffinio'r mater

Darganfu adroddiad gan Diverse Cymru yn 2018 o dan arweiniad dinasyddion bod dinasyddion yn teimlo na ddylai ymgyfraniad olygu bod y sector cyhoeddus yn dwyn eu hagenda a'u drafftiau i'r bobl, neu fod yn ymgysylltiad symbolaidd. Yn hytrach, dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus greu eu hagenda drwy wrando ar bobl ac ennyn eu hymgyfraniad mewn dull ystyrlon drwy gydol y broses benderfynu a bod yn agored i newidiadau gwirioneddol fel canlyniad. Mae'n hollbwysig i sicrhau bod gweithgareddau a

mecanwaith ar gyfer ennyn ymgyfraniad pobl yn cael eu cynllunio'n briodol, eu monitro a'u hadrodd, fel y gellir eu datblygu, eu herio neu eu hyrwyddo. Mae sicrhau bod staff a sefydliadau'n berchen ar y sgiliau, y strwythurau yn ogystal â'r amser a'r adnoddau i ennyn ymgyfraniad y cyhoedd yn effeithiol yn hollbwysig wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n adlewyrchu'r hyn sydd o bwys i'r cyhoedd a'u hanghenion, yn hytrach nag ystyried bod y dulliau traddodiadol yn rhai sy'n gweithio'n well.

Synergedd a chysylltiadau a theithiau eraill:



Taith tuag at Gymru fwy cyfartal
Pwnc 3: Cyfranogiad cyfartal



Taith tuag at Gymru gydnerth
Pwnc 2: Mannau gwyrdd naturiol

Gwneud Newidiadau Syml

Canfyddwch y staff mwyaf perthnasol a darparwch [hyfforddiant mewn theori a thechneg ymgyfrannu](#) ar eu cyfer.

Sicrhewch fod staff yn ymwybodol o [Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltiad Cyhoeddus](#) a'u bod yn cael eu dangos yn y gweithle.

Cynigiwch gymorth ariannol i dalu am gostau teithio'n ymwneud â phresenoldeb dinasyddion mewn digwyddiadau ymgyfrannu.

Cynhwyswch [ymgyfraniad y cyhoedd mewn cynllunio, monitro, adrodd ac asesiadau staff](#). Gallai hyn fod mor syml â chynnwys cwestiwn am y modd y mae staff wedi defnyddio ymgyfraniad pobl yn eu gwaith, a beth a gafodd ei wneud yn wahanol fel canlyniad i ddefnyddio ymgyfraniad pobl.

Sicrhewch ymgyfraniad pobl yn y cyfnod cynharaf posibl.

e.e. [prosiect cydraddoldeb Rhwydwaith Llywodraeth Agored Cymru](#) a gyflwynwyd gan Diverse Cymru a C3SC yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Sicrhewch fod yna ddinasyddion a rhanddeiliaid ar baneli, gweithgorau a byrddau.

Darganfyddwch gyfleoedd i ddwyn profiadau defnyddwyr i gyfarfodydd bwrdd neu dimau arweinyddiaeth.

Cynlluniwch ymlaen llaw eich gweithgareddau ymgyfrannu ac ymgysylltu a fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn, a rhannwch gynlluniau gyda phartneriaethau eraill o'r sector cyhoeddus.

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Sicrhewch fod yr holl staff

yn cael y cyfle i dderbyn [hyfforddiant mewn theori a thechneg ymgyfrannu](#). Byddai hyn yn sicrhau fod staff rheng flaen gwasanaethau'n berchen ar y cymwysterau gorau i ddelio ag anghenion y cyhoedd gan ymateb i'w pryderon.

Sicrhewch fod eich sefydliad

yn cefnogi [Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltiad Cyhoeddus](#) ac yn medru dangos yn glir sut y maent yn gweithio tuag atynt.

Sefydlwch gronfa i

sicrhau fod pobl yn medru ymgyfrannu a goresgyn unrhyw rwystrau ariannol, er enghraifft, help gyda chludiant neu gostau gofal plant.

Sicrhewch fod yna

gydnabyddiaeth o amser pobl drwy gynlluniau megis credydau amser.

Sicrhewch fod yna berson wedi ei henwebu i fod yn gyfrifol am hybu a chynghori ar ymgyfrannu o fewn pob adran.

Sicrhewch fod ymgyfraniad cyhoeddus yn cael ei gynnal a'i gynorthwyo'n egniol. Gallai hyn fod drwy gyd-gefnogaeth neu oddi wrth staff.

Sicrhewch fod cynrychiolaeth o blith dinasyddion a rhanddeiliaid yn weladwy ar baneli, gweithgorau a byrddau.

Cyd-gynhyrchwch

gynlluniau ymgysylltu a gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn (a thu hwnt) gyda phartneriaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan ddefnyddio'r cyfle i wneud y gweithgaredd yn ddefnyddiol i nifer o sefydliadau.

Perchnogi'r Uchelgais

Yr holl staff, waeth beth fo'u rôl, i gael y cyfle i gymryd rhan mewn ymgysylltu cyhoeddus a gweithgareddau ymgyfrannu. Mae ymgyfrannu'n fusnes i bawb.

e.e. [Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf](#), lle mae uwch staff yn cymryd rhan mewn cyfleoedd cysgodi neu lle byddir yn trefnu i'w tyws drwy wasanaethau.

Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltiad Cyhoeddus yn rhan annatod o'r sefydliad; ymgyfrannu'n cael ei weld fel cyfrifoldeb yr holl staff. Mae llawer o staff rheng flaen yn delio ag aelodau'r cyhoedd bob dydd a byddai hyn yn sicrhau bod ganddynt y cymwysterau gorau i ddelio ag anghenion y cyhoedd.

Mae ymgyfraniad yn cael ei gydnabod a'i gynorthwyo drwy ddarparu cydnabyddiaeth ffurfiol o aelodau'r cyhoedd, a'r cyfle iddynt gyrchu hyfforddiant, achrediad neu gredydau amser.

Mae ymgyfraniad yn weithgaredd craidd, gyda deialog barhaus yn weladwy iawn drwyddi draw yn y sefydliad ac yng nghynllunio partneriaeth.

Mae mecanweithiau yn eu lle i sicrhau bod unrhyw ddinesydd sy'n dymuno ymgyfrannu mewn gwella gwasanaeth neu gynllun yn cael y cyfle i wneud hynny.

e.e. [Deddf Ymrymuso'r Gymuned \(Yr Alban\) -2015](#).

Mae mecanweithiau yn eu lle ar gyfer cynrychiolaeth dinasyddion a rhanddeiliaid ac maent yn cael eu gweld a'u trin fel cynrychiolwyr cyfartal.

ee

ee

Perchnogi'r Uchelgais

Mae yna un pwynt mynediad i holl weithgareddau ymgyfrannu sy'n digwydd ar draws partneriaeth, megis calendr ymgyfrannu wedi ei gyd-drefnu i sicrhau fod digwyddiadau ar gyfer cydweithredu'n cael eu nodi ac ailadrodd yn cael ei osgoi.

Mae ymgyfraniad mewn strategaeth benderfynu hirdymor yn rhywbeth parhaus, yn hytrach na rhywbeth sy'n digwydd unwaith.

ee

e.e. Sgwrs genedlaethol
Y Gymru a Garem.

Mae datblygu ac adolygu polisi a gwasanaethau'n cael eu mabwysiadu mewn dull systematig sy'n ystyried pwy yw'r defnyddwyr terfynol a pha fath o brofiad yw'r polisi neu'r gwasanaeth iddyn nhw.